# Polisi chwarae, ymchwil ac ymarfer: Cael pethau'n iawn i blant

Cynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru



**16 Hydref 2025**

Gwesty'r Hilton, Caerdydd

# Polisi chwarae, ymchwil ac ymarfer: Cael pethau'n iawn i blant

16 Hydref 2025 (9:00am - 4:30pm)
Gwesty'r Hilton, Caerdydd

**Mae adolygiad llenyddiaeth *Chwarae a lles* a gyhoeddwyd gan Chwarae Cymru yn pwysleisio bod cyfleoedd chwarae anffurfiol yn rhoi cyfle i blant gefnogi eu lles uniongyrchol tra'n adeiladu'n naturiol y sgiliau bywyd sy'n cyfrannu at ddeilliannau datblygiad tymor hir. Ynghyd â'r dystiolaeth rymus hon, beth allwn ni ei ddysgu oddi wrth yr hyn fydd plant yn ei ddweud wrthym am sut fyddan nhw'n chwarae?**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sectorau chwarae a gwaith chwarae wedi sicrhau cynnydd sylweddol wrth greu amgylchedd chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant, wedi ei gefnogi gan bolisi ac ymchwil arloesol. Mae angen inni feithrin a chynnal y cynnydd a'r momentwm hwn.

Ymunwch â ni yng nghynhadledd genedlaethol Chwarae Cymru i drafod sut allwn ni gynnal y momentwm hwn ac archwilio ffyrdd i ehangu ar ein gwaith i gyd, a chydweithio i ddarparu, hyrwyddo a gwarchod hawl plant i chwarae.

Bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i gynadleddwyr:

- glywed am farn plant ynghylch eu bodlonrwydd chwarae
- myfyrio ar a rhannu arfer da am chwarae plant
- cyfrannu at ystod eang o weithdai astudiaethau achos
- rhwydweithio gyda chydweithwyr
- ystyried ffyrdd i sicrhau bod polisi ac ymchwil yn cael eu rhoi ar waith er mwyn gwneud gwir wahaniaeth i blant a'u cyfleoedd i chwarae
- dathlu safle Cymru wrth lunio tueddiadau byd-eang a syniadau am chwarae.

## Pwy ddylai fynychu?

Mae'r gynhadledd wedi ei hanelu at: swyddogion digonolrwydd chwarae, ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae, aelodau etholedig llywodraeth leol, a'r rheini sy'n ymwneud ag iechyd, addysg, teithio llesol, cynllunio cymunedol a thref.

## Prif siaradwyr

Bydd siaradwyr yn cynnwys:

- Dawn Bowden, AS, Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
- Dr David Dallimore, ymchwilydd ac ymgynghorydd
- Yr Athro Philip Jaffé, aelod o Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Robyn Monro Miller, Llywydd yr International Play Association a Chymrawd Ymddiriedolaeth Winston Churchill.

**Gwybodaeth am weithdai i ddilyn.**

## Prisiau cynadleddwyr

Eleni rydym yn gallu cynnig gostyngiad yn y pris i gefnogwyr yng Nghymru.

- Cefnogwyr yng Nghymru tan 1 Medi: £55
- Cefnogwyr yng Nghymru 2 Medi ymlaen: £75
- Cynadleddwyr o'r tu allan i Gymru: £100

**I archebu eich lle ewch at: www.chwarae.cymru/digwyddiadau**